



Aelod o staff mwyaf Ysbrydoledig y Flwyddyn

Aelod o staff sydd wedi gwneud eich amser ym Mhrifysgol Caerdydd yn un rhagorol gyda'u rhagolwg cadarnhaol a gweithredoedd.

- Yn mynd allan o'u ffordd i ddarparu profiad sydd yn cefnogi myfyrwyr.
- Nid oes problem na allant ei ddatrys!
- Rhagolwg ysbrydoledig parhaus ar fywyd a phrofiad y myfyriwr.
- Aelod o staff sy'n frwdfrydig ac yn grymuso myfyrwyr i weithio mewn partneriaeth â'r brifysgol.

Pwy sy'n gallu enwebu? Pob myfyriwr.
Pwy sy'n gallu ennill? Staff.

Tiwtor Personol y Flwyddyn

Tiwtor Personol sy'n cefnogi Israddedigion neu Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir trwy eu hamser yn y brifysgol.

- Polisi 'drws agored' o fewn oriau swyddfa sy'n golygu eu bod nhw ar gael pan fydd eu hangen arnoch.
- Yn ceisio helpu eu myfyrwyr lle bynnag y bo modd.
- Wedi darparu cyfeiriadau priodol i wasanaethau cymorth yn ogystal â bod yn rhagweithiol wrth ddatrys materion y mae myfyrwyr yn eu wynebu (lle bo hynny'n briodol).

Pwy sy'n gallu enwebu? Pob myfyriwr.
Pwy sy'n gallu ennill? Staff.

Goruchwyliwr Doethurol y Flwyddyn

Goruchwyliwr Doethurol sy'n cefnogi myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig i gyflawni yn eu hymchwil, ysgrifennu eu traethawd ymchwil, a pharatoi ar gyfer eu Viva.

- Yn dod o hyd i gyfleoedd i Ymchwilwyr ddatblygu, dysgu ac ymchwil.
- Gweithio'n ddifflino i roi esiampl i ymchwilwyr.
- Yn annog ac yn cefnogi ÔRY gyda'u traethawd ymchwil.
- Yn cydnabod straen eu hymchwiliwr ôl-raddedig, ystyried eu lles meddyliol ac emosiynol.

Pwy sy'n gallu enwebu? Pob myfyriwr.
Pwy sy'n gallu ennill? Staff.

Tiwtor Graddedig ÔRY y Flwyddyn

Myfyriwr PhD, sydd fel Tiwtor Graddedig Ymchwil Ôl-raddedig wedi cefnogi a chyfrannu at brofiad dysgu myfyrwyr israddedig ac wedi darparu adborth a chymorth academaidd yn unol â disgwyliadau'r Brifysgol. Mae'r wobwr hon yn cydnabod cyfraniadau'r myfyrwyr ÔRY sy'n addysgu a'u hymrwymiad i ddarparu addysg o safon ym Mhrifysgol Caerdydd.

- Yn cyflwyno seminarau / tiwtorialau mewn ffordd ddiddorol ac addysgiadol.
- Yn darparu adborth adeiladol ac amserol i ymholiadau ac eglurder ar waith myfyrwyr.
- Ymddrin â'u gwaith addysgu â phroffesiynoldeb, wrth geisio gwella adborth myfyrwyr.
- Yn cefnogi Tiwtoriaid ac Arddangoswyr Graddedig ÔRY eraill.

Pwy sy'n gallu enwebu? Myfyrwyr (ac eithrio'r myfyrwyr ÔRY sy'n addysgu).

Pwy sy'n gallu ennill? Myfyrwyr ÔRY / PhD sy'n gweithredu fel aelod o staff.

Arddangoswr ÔRY y Flwyddyn

Myfyriwr PhD, sydd fel Arddangoswr ÔRY wedi cynorthwyo a chefnogi dysg israddedigion a myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir mewn cyd-destun labordy neu weithdy ymarferol. Mae'r wobwr hon yn cydnabod cyfraniadau'r myfyrwyr ÔRY sy'n arddangos eu hymrwymiad i ddarparu sesiynau / gweithdai / teithiau maes labordy o safon ym Mhrifysgol Caerdydd.

- Cynorthwyo i ddarparu sesiynau labordy mewn ffordd ddeniadol ac effeithlon.
- Yn weithredol wrth gynniog cyngor ac arweiniad i wella ymgysylltiad myfyrwyr ac annog cyfranogiad.
- Yn dangos effeithiolrwydd wrth ddefnyddio offer ac yn darparu technegau clir wrth sefydlu systemau / cyfarpar arbrol.
- Yn cefnogi Arddangoswyr ÔRY eraill.

Pwy sy'n gallu enwebu? Pob myfyriwr (ac eithrio'r myfyrwyr ÔRY sy'n arddangos).

Pwy sy'n gallu ennill? Myfyrwyr ÔRY / PhD sy'n gweithredu fel aelod o staff.

Aelod Staff Mwyaf Arloesol y Flwyddyn

Aelod o staff sydd wedi ennyn diddordeb myfyrwyr mewn dysgu ac addysgu trwy amrywiaeth o ddulliau.

- Yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf (o Trydar i Recordio Darlithoedd).
- Yn gwneud defnydd llawn o'r gofod dysgu.
- Nid yw'n darlithio, ond yn hytrach mae'n dysgu drwy ddefnyddio addysgu rhyngweithiol ac atyniadol.
- Yn meithrin llais y myfyriwr yn ogystal â chefnogi myfyrwyr a staff i weithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau.
- Yn Cyflwyno sgiliau cyflogadwyedd yn y cwricwlwm.
- Rhywun sydd wedi bod yn rhagweithiol neu wedi bod yn greadigol i ddarparu atebion i broblemau a achosir gan y clo, cyfngiadau pellhau cymdeithasol, dysgu o bell ac ati.

Pwy sy'n gallu enwebu? Pob myfyriwr.
Pwy sy'n gallu ennill? Staff.



Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr y Flwyddyn (AHSS, BLS, and PSE)

Cynrychiolydd Academaidd sydd wedi datblygu'n bersonol hefyd i gynrychioli eu myfyrwyr mewn rhaglen, ysgol neu ar lefel coleg.

- Creu gwahanol ffyrdd o ennyn diddordeb myfyrwyr yn eu cyrsiau ac o fewn eu hysgolion.
- Wedi bod yn eiriolwr cryf dros lais y myfyriwr.
- Mynychu cymaint o sesiynau a chyfleoedd hyfforddi â phosibl.
- Wedi gweithio ar amrywiaeth o ymgyrchoedd ledled y flwyddyn (o fewn eu hysgol, Undeb y Myfyrwyr, a'r Brifysgol ehangach).

Pwy sy'n gallu enwebu? Staff neu fyfyrwr.
Pwy sy'n gallu ennill? Myfyrwyr sy'n gweithredu fel Cynrychiolydd Academaidd.

Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr y Flwyddyn

Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr sydd wedi llwyddo yn eu prif rôl yn ogystal ag yn eu rôl fel Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr.

- Yn darparu adborth adeiladol i gynrychiolwyr.
- Gweithio'n agos gyda Llais y Myfyriwr a thimau Ymgysylltu Myfyrwyr.
- Yn creu ac yn hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr i ymgysylltu a dysgu y tu allan i'r Panel Staff Myfyrwyr neu'r Bwrdd Astudio arferol.
- Gellir eu gweld gyda gwên ar eu hwyneb bob amser ac yn hwyluso llais myfyrwyr.
- Yn cefnogi trosglwyddo cynrychiolwyr o flwyddyn i flwyddyn yn creu amgylchedd calonogol ar gyfer cynrychiolaeth.

Pwy sy'n gallu enwebu? Pob myfyriwr.
Pwy sy'n gallu ennill? Staff.

Mentor Myfyrwyr y Flwyddyn

Eich Mentor Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd sydd, yn eich barn chi, wedi mynd y tu hwnt i'w rôl wrth ddarparu cefnogaeth i chi mewn o leiaf dau o'r canlynol.

- Eich helpu chi i gadw cymhelliant eleni.
- Bod yno i chi pan oeddech chi'n teimlo y gallai fod eu hangen arnoch chi.
- Eich helpu chi i aros yn y brifysgol pan cawsoch eich temptio i adael.
- Rhywbeth sy'n gwneud i'ch mentor sefyll allan fel rhywbeth eithriadol - rhwch enghreifftiau.

Pwy sy'n gallu enwebu? Pob myfyriwr.
Pwy sy'n gallu ennill? Mentoriaid Myfyrwyr.

Hyrwyddwr dros Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Myfyriwr neu aelod o staff sydd wedi gweithio i leihau neu cael gwared ar rwystrau i gyfranogi, yn ogystal â bod yn esiampl ar gyfer ac o fewn grwpiau ymylol.

- Rhedeg digwyddiadau neu greu cyfleoedd i drafod, dadlau, neu gefnogi grwpiau ymylol.
- Wedi gweithio gyda'r brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr i newid polisi neu ymarfer i greu amgylchedd mwy cynhwysol ym Mhrifysgol Caerdydd.
- Hyrwyddo gwerthoedd Prifysgol Caerdydd a Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Pwy sy'n gallu enwebu? Myfyrwyr neu staff .
Pwy sy'n gallu ennill? Myfyrwyr neu staff .

Hyrwyddwr Addysg Cymraeg

Yn gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg trwy ddysgu ac addysgu.

- Yn defnyddio Cymraeg atodol pwrpasol mewn darlithoedd a thiworialau er mwyn rhoi cyflwyniad i'r Gymraeg i fyfyrwyr.
- Yn darparu gwybodaeth am Gymraeg, neu gyfleoedd ymgysylltu â diwylliant a hanes Cymru (nid trwy iaith yn unig).
- Esiampl ar gyfer Safonau Iaith Gymraeg yng Nghymru.

Pwy sy'n gallu enwebu? Pob myfyriwr.
Pwy sy'n gallu ennill? Staff.